

Eisteddfod yr Urdd – 2018

Cystadleuaeth Prif Seremoni Defod Y Cadeirio Bl.10 a dan 25 oed (379)

BEIRNIADAETH GRUFFUDD ANTUR A MARI LISA

I BEDWAR BAN

Cyfes o bedair cerdd sydd gan y bardd hwn, sy'n mynd â ni, fel yr awgryma'i ffugenw, i bedwar lle gwahanol. Cerddi rhydd yw'r tair cerdd gyntaf, a chyfes o englynion yw'r bedwaredd gerdd. Mae'r bardd yn amlwg wedi meddwl am saerniaeth ei gerddi. Brwydr a brwydro yw'r llinyn sy'n cysylltu'r gyfes: brwydr merch ifanc tua 12 oed yn crafu byw mewn clwb nos yn Venezuela, troseddau rhyfel Ratko Mladic yn Bosnia, y rhyfel yn Syria, a'r gwrthdaro yn ninas Barcelona yn Catalwnia yn y gerdd olaf. Digwyddiadau mawr, themâu mawr a'r rheini'n goblyn o anodd eu mynegi mewn ffordd ystyrlon yn enwedig i rywun na chafodd brofiad ohonynt o lygad y ffynnon. Mae yma fardd da sy'n gwybod sut i drin geiriau, ond oherwydd y thema a ddewisodd, mae tuedd i'w gerddi rhydd droi'n rhyddieithol a phregethwrol ar adegau. Y gerdd orau o ddigon yw'r gyfes o englynion sy'n dechrau ac yn gorffen â'r un llinell, gan lunio cyfanwaith ynddynt eu hunain. Hen wraig o Gatalan sy'n siarad, ac wrth weld y gwrthdaro yn Barcelona mae'n cofio am y caledi a fu yno yn y gorffennol. Aeth yr 'hen oriel ddel' yn 'oriel o filwriaeth'. Mae gafael y bardd ar y cynganeddion yn gadarn, a phe byddai wedi cyflwyno'r gerdd olaf hon ar ei phen ei hun, gan ei datblygu a'i hymestyn, gallai fod wedi brasgamu'n hyderus at frig y gystadleuaeth.